OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 3177

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013

RHAN 6

BENTHYCIADAU AT GOSTAU BYW

Uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn ac yn fyfyrwyr carfan 2011

55.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn ac yn fyfyriwr carfan 2011.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 57 i 62, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw y mae gan fyfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd (ac eithrio blwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys) yn hafal i (**X–Y**) pan fo—

X i fyfyriwr o'r fath—

(i) yng nghategori 1, yn £4,027;

(ii) yng nghategori 2, yn £7,288;

(iii) yng nghategori 3, yn £6,202;

(iv) yng nghategori 4, yn £6,202;

(v) yng nghategori 5, yn £5,202;

Y yn swm y grant cynhaliaeth.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliadau 57 i 62, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw y mae gan fyfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n flwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys yn hafal i (**X–Y)** pan fo—

X i fyfyriwr o'r fath—

(i) yng nghategori 1, yn £3,645;

(ii) yng nghategori 2, yn £6,636;

(iii) yng nghategori 3, yn £5,394;

(iv) yng nghategori 4, yn £5,394;

(v) yng nghategori 5, yn £4,819;

Y yn swm y grant cynhaliaeth.

(4) Yn y rheoliad hwn, "swm y grant cynhaliaeth" ("*the maintenance grant amount*") yw'r canlynol—

(a) os oes gan y myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, y cyfeirir ato ym mharagraff (1), hawl o dan reoliad 44 i gael swm o grant cynhaliaeth, mae'r swm y mae hwnnw'n hafal iddo yn £0.50 am bob £1 o grant cynhaliaeth y mae hawl gan y myfyriwr i'w gael, hyd at uchafswm gwerth Y o £2,580;

(b) os nad oes grant cynhaliaeth yn daladwy o dan reoliad 44, dim.